

Cymdeithas Llanberis

Daw tymor y Gymdeithas i ben gyda'r ymweliad â Phant Du, Penygroes nos Fawrth, Ebrill 14.

Bydd y bws yn cychwyn o Res y Faenol am 6.20 o'r gloch ac yn dod trwy'r Stryd Fawr.

Os ydych am ddod gyda ni, rhwch eich enw i Miss Dilys Mai Roberts mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda.

Pwyllgor Efe

Cynhelir Pwyllgor Cynllun Efe nos Lun, Ebrill 13.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Pendref, Bangor am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 29.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ebrill 12: Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch. Oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Ddr Elwyn

Richards, Caernarfon.


CAPEL COCH A NANT PADARN
Dydd Sul, Ebrill 12: Y Gweinidog am 10.00 o'r gloch; yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch; ac oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH
Dydd Sul, Ebrill 12: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM
Dydd Sul, Ebrill 12: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir gan y Gweinidog am 2.00 o'r gloch.

CARMEL
Nos Wener, Ebrill 10: Cynhelir 'Dwylo Pysur' am 6.30 o'r gloch.
Dydd Sul, Ebrill 12: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch; ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Miss Nerys Jackson, Caernarfon.

CYNLLUN EFE
Nos Lun, Ebrill 13: Cynhelir Pwyllgor Ymddiriedolwyr am 7.00 o'r gloch.
Dydd Gwener, Ebrill 17: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Mae'n wir! Mae'n fyw!

Pa ots nad oedd y stori'n wir? Doedd y prif offeiriaid yn poeni dim am hynny. Roedden nhw'n fodlon twyllo ac annog eraill i ddeud celwydd er mwyn lladd y stori am atgyfodiad Iesu. 'Dywedwch fod ei ddisgyblion ef wedi dod yn y nos, a'i ladrata tra oeddech chi'n cysgu' (Mathew 28:13). Rhyfedd o fydd; y diwrnod cynt roedden nhw wedi galw Iesu'n dwyllwr ac wedi awgrymu y byddai ei ddisgyblion yn ceisio twyllo pawb trwy symud ei gorff o'r bedd a dweud ei fod wedi dod yn ôl yn fyw. Ond ar Sul y Pasg roedden nhw'n fwy na pharod i dwyllo am ei fod yn eu siwtio nhw a'u buddiannau. Roedden nhw'n gwybod nad oedd yna ronyn o wirionedd yn y stori am y disgyblion yn lladrata'r corf, ond doedden nhw'n poeni dim am hynny.

Mae ysbryd y prif offeiriaid yn fyw o hyd y Pasg hwn. Roedd rhywbeth od iawn ynghylch yr hyn a adroddwyd ddydd Gwener am sylwadau honedig Nicola Sturgeon, Arweinydd Plaid Genedlaethol yr Alban. Yr honiad oedd bod 'rhywun yn deud bod rhywun arall yn deud bod Nicola Sturgeon wedi deud wrth rywun arall eto' y byddai'n well ganddi weld David Cameron yn Brif Weinidog nag Ed Miliband. Roedd y cyfan yn debycach i hel clecs nag i newyddion. Ac fe gadarnhawyd hynny o fewn ychydig oriau wrth i bawb a enwyd yn y stori gadarnhau na ddywedodd Ms Sturgeon ddim o'r fath.

Amser a ddengys o ble tarddodd y

stori, ond yr hyn sy'n wirioneddol drist yw'r ffordd yr oedd rhai pobl yn dal i fynnu bod y sylwadau 'yn ddamniol i Ms Sturgeon' er ei bod yn amlwg nad oedd unrhyw wirionedd i'r stori ac na ddywedodd hi'r geiriau a briodolwyd iddi. Ond pa ots am y gwir?

Gobeithio nad rhagflas a gafwyd o'r hyn y gallwn ei ddisgwyl dros y pedair wythnos nesaf hyd ddydd yr Etholiad. Gobeithio na fydd y gwleidyddion yn pedlora celwyddau. Gwyddom y bydd pobl o bob plaid yn gwneud pob math o addewidion y bydd anodd iawn eu cyflawni. Ond peth arall yn llwyr yw dweud pethau – yn arbennig bethau am bobl eraill – a hithau'n gwbl amlwg nad yw'r pethau hynny'n wir. Sut all pobl ymddiried mewn gwleidydd neu unrhyw un arall sy'n pedlora celwydd er mwyn hyrwyddo ei achos ei hun?

Ar Sul y Pasg, diolchwn o'r newydd mai'r prif offeiriaid, yn hytrach na Iesu a'i ddisgyblion, oedd y twyllwyr yn yr hanes hwn. Cyhoeddi'r gwir a wnâi'r disgyblion wrth ddweud bod Iesu wedi dod o'i fedd yn fyw. Ac un o'r pethau pwysicaf i'w gofio yw bod y bobl hyn yn llygad dystion o'r gwirionedd hwnnw gan eu bod wedi gweld Iesu Grist yn fyw â'u llygaid eu hunain. Nid dweud 'bod rhywun wedi deud wrth rywun bod rhywun arall wedi gweld Iesu' oedden nhw o gwbl. Roedd y tystion cyntaf yn cyhoeddi'r hyn a welon nhw eu hunain. Roedd Iesu yn fyw. Ac mae'n dal yn fyw!

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 5 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. - Y Gweinidog
Nos - Y Parchg Dafydd Hughes

Ebrill 12

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Elwyn Richards

Ebrill 19

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ebrill 26

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 5 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. - Oedfa
5.00 p.m. - Oedfa

Ebrill 12

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Ebrill 19

10.00 a.m. - Y Parchg Reuben Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Richard Ll Jones

Ebrill 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul y Pasg. Boed bendith Duw ar ein haddoliad wrth i ni gofio a dathlu atgyfodiad ein Harglwydd a'n Gwardwr, Iesu Grist.

Cynhelir oedfaon yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch. Bydd oedfa'r hwyr yng ngofal Gareth Jones a Colin Jones.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog, ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.

Gwasanaethir yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Richard O Jones, Gaerwen.

Diolch i bawb sy'n arwain yr oedfaon.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Gwilym a Glenys Owen, Stryd yr Wyddfa, Llanberis yn eu profedigaeth o golli brawd i Gwilym, John Owen, Penisarwaun, a fu farw yn Ysbyty Eryri yr wythnos o'r blaen. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlogfa Bangor ddydd Gwener, Mawrth 27.

Cwrs Plant yn y Bala

Bydd Penwythnos Plant yr Ofalaeth yng Ngholeg y Bala eleni o nos Wener hyd ddydd Sul, Mai 15-17.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer plant 8 i 12 oed ac mae croeso cynnes i'ch plentyn ddod iddo.

Cost y penwythnos fydd £60. Bwriedir trefnu bws eleni eto i nôl a danfon y criw i'r Bala. Mae'r plant sydd wedi bod o'r blaen yn gwybod am yr hwyl a geir ar y cyrsiau hyn, a gwn fod rhai'n edrych ymlaen yn barod i fynd i'r Bala eto.

Mae'n gyfle arbennig i'r plant ddysgu am Iesu Grist trwy weithgareddau o bob math, yn cynnwys gemau a gwaith crefft a chanu a stori.

Os am ragor o fanylion cysylltwch â'r Gweinidog. Mae ffurflenni ar gael i archebu eich lle, ac mae angen gwneud hynny erbyn dydd olaf Ebrill fan bellaf.

Gŵyl Llanw

Bydd cyfle i addoli a dysgu am y Ffydd yn yr ŵyl flynyddol hon sy'n cael ei chynnal yn y Gogledd am y tro cyntaf yr wythnos hon. Yng Nghricieth y bydd y cyfarfodydd, ac mae gwahoddiad cynnes i unrhyw un ymuno â'r cannoedd a fydd wedi dod yno o bob rhan o'r wlad. Ceir y manylion llawn ar y dudalen nesaf.

Mae croeso i bobl fynd i Llanw ar gyfer un neu fwy o'r cyfarfodydd.

Calendr Gweddi

Mae Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon wedi ffurfio Pwyllgor Bugeiliol sy'n ceisio bod o gymorth i'r eglwysi. Fel y nodwyd yn *Gronyn* yn ddiweddar, mae aelodau'r pwyllgor hwn yn trafod a chydweithio â'r Parchg Casi Jones, Clynnog, Swyddog Cynnal ac Adnoddau Eglwysi'r Gogledd dan nawdd Undeb yr Annibynwyr.

Bydd Casi yn cyfarfod â chynrychiolwyr o eglwysi'r Ofalaeth hon ym mis Mai, a cheir rhagor o fanylion am y gyfres hon o gyfarfodydd yr wythnos nesaf.

Un peth y penderfynwyd ei wneud yw

paratoi Calendr Gweddi misol y gall yr eglwysi ei rannu i'w heglwysi. Mae'r calendr cyntaf ar gyfer mis Ebrill yn cael ei rannu gyda Gronyn heddiw. Ynndo, ar gyfer pob dydd o'r mis, ceir awgrym o un peth y gellir gweddi amdano. Fe welwch fod amryw o'r pynciau gweddi yn berthnasol i'r dyddiad. Gobeithio bydd yr awgrymiadau hyn yn help i ni weddio ac yn cyfoethogi bywyd gweddi yr eglwysi. Fel y gwelwch, nid yw'r pynciau gweddi wedi eu cyfyngu i'r hyn sydd o bwys i eglwysi'r Annibynwyr, ac felly byddant o werth i bawb ohonom gobeithio. Diolch i Ifor Glyn Efans, Capel Curig am baratoi Calendr Gweddi mis Ebrill.

Yr wythnos hon

LLANW *Dathlu'r Atgyfodiad*

Neuadd Goffa, Cricieth Nos Lun, Ebrill 6 – Nos Iau, Ebrill 9

Nos Lun: 7.00 p.m. – Oedfa gyda Rhys Llwyd, Caernarfon

Dydd Mawrth: 10.00 a.m. – Anerchiad gan Rhodri Glyn, Llansannan
7.00 p.m. – Oedfa gyda Steffan Morris, Llanuwchllyn

Dydd Mercher: 10.00 a.m. – Anerchiad gan Rhodri Glyn, Llansannan
7.00 p.m. – Oedfa gyda Ben Thomas, Cricieth

Dydd Iau: 10.00 a.m. – Anerchiad gan Rhodri Glyn, Llansannan
7.00 p.m. – Oedfa gydag Emyr James, Caerdydd

Ar gyfer plant ac ieuentid

Bydd gweithgareddau arbennig ar gyfer plant ac ieuentid yn ystod yr oedfaon hyn bob bore a bob nos

Croeso cynnes i bawb